

Newyddlen Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Gaeaf 2006 | Rhifyn 4 | ISSN 1744-6759

Tanni yn y Llyfrgell

Y Ddraig Werdd

Dolen Dros y Dŵr

Llun Olaf Kyffin

Selio Cyfeillgarwch

Cwrdd â Anwen Pierce




Torpedo'n ffilmio'u cyfres am y Llyfrgell

www.llgc.org.uk

Mewn Twll

Mae'n siŵr nad oes ffawd waeth na chael eich dal yn garcharor mewn gwlad estron. Dyna oedd tynged anffortunus Peter Shaw, y banciwr o Gaerdydd a gafodd ei herwgipio yng ngweriniaeth Cawcaasaidd Georgia yn 2002.

Cyhoeddir *Hole*, hanes y profiad erchyll, gan Accent Press ac fe'i lanswyd yn y Llyfrgell Genedlaethol ar 10 Tachwedd gerbron cynulleidfa frwd. Roedd yr achlysur hwn yn un o nifer o lansiadau llyfrau a gynhaliwyd yn y Llyfrgell eleni.



Lansiad llyfr - Hole

Yn Barod am y Cant?

Ydych chi'n barod i ddathlu'r canmlwyddiant gyda'r Llyfrgell Genedlaethol? Mae nifer o ddigwyddiadau wedi eu trefnu eisoes a llawer mwy ar y gweill.

Ymysg gweithgareddau dechrau'r flwyddyn bydd y Llyfrgellydd, Andrew Green, yn cyflwyno darlith, 'National Libraries and Archives of the Future' yn y Drwm ar nos Wener **26 Ionawr. Y diwrnod canlynol** cawn barhau gyda'r dathlu yng nghwmni'r bardd Gwyneth Lewis. Bydd Gwyneth yn cynnal gweithdy i blant o wyth i ddeg oed yn y bore, ac yn y prynhawn bydd cyfle i'w chlywed yn darllen ei dwy gerdd newydd o gyfarchion i'r Llyfrgell, ynghyd â chyfansoddiadau ganddi hi a beirdd eraill.

Yn ystod **mis Chwefror** bydd BBC Wales yn darlledu cyfres deledu gyda'r cyflwynydd Trevor Fishlock am y Llyfrgell a'i chasgliadau. Dyma gyfle unigryw i weld rhai o drysorau prinnaf y casgliadau ac i ddysgu peth o'u hanes a'u tarddiad.

Ar ddiwedd Mawrth agorir prif arddangosfa'r canmlwyddiant **Yn Y Lle Hwn / In This Place**. Dyma un

o'r arddangosfeydd pwysicaf erioed gan y Llyfrgell wrth iddi olrhain hanes Cymru trwy ei chasgliadau. Bydd modd gweld eitemau eiconaidd Cymreig gan gynnwys Llyfr Du Caerfyrddin a Llyfr Gwyn Rhydderch, darluniau gan JMW Turner, Kyffin Williams a David Jones.

Dethlir Diwrnod y Llyfr 2007 ar **1 Mawrth**, eleni ac ar y diwrnod hwnnw bydd Dr Rhidian Griffiths yn traddodi darlith am y Llyfrgell a'i hanes, 'Dinas a osodir ar fryn'. Cynhelir y ddarlith am 5.00 o'r gloch yng Nghanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, sef yr adeilad sydd drws nesaf i'r Llyfrgell.

Cyflwynwyd y Siatr Frenhinol wreiddiol i'r Llyfrgell ar **19 Mawrth 1907**, a chofnodir canmlwyddiant y dyddiad hanesyddol yma gyda nifer o weithgareddau gan gynnwys anfon cyfarchion cerddi canmlwyddiant Gwyneth Lewis at holl lyfrgelloedd y byd.

Dim ond rhagflas yw'r uchod o ddigwyddiadau'r canmlwyddiant - cadwch lygad ar wefan y Llyfrgell am fanylion pellach www.llgc.org.uk/100



Tanni'n arwyddo'r Llyfr Ymwelwyr gyda'r Llyfrgellydd



Mae'r Llyfrgell yn ddelfrydol ar gyfer gwaith ymchwil

Tanni yn y Llyfrgell

Cafodd y Llyfrgell ymweliad am y tro cyntaf erioed gan yr athletwraig Olympaidd Y Fonesig Tanni Grey-Thompson pan ddaeth yma ym mis Hydref fel cyflwynydd cyfres deledu arfaethedig. Bydd y rhaglen, gan gynrychiadau Green Bay Caerdydd, ac sy'n croniclo bywyd ac amserau merched yng Nghymru, yn cael ei darlledu gan y BBC yn y dyfodol agos.

Y Ddraig Werdd

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru gyfrifoldeb dros warchod ein bywyd deallusol ond erbyn hyn mae hefyd yn dra ymwybodol o'i dyletswydd ehangach i ddiogelu'r amgylchedd.

Ers mis Tachwedd 2006, mae'r Llyfrgell wedi ymgymryd â gweithredu cynllun Draig Werdd Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r amgylchedd.

Enillodd y Llyfrgell Lefel 2 y cynllun ym mis Hydref ar sail ei hymrwymiad i arbed ynni ac adnoddau eraill.

'Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth arbed ynni ac adnoddau eraill a chreu gweithle sy'n dangos mwy o barch at yr amgylchedd. Dyw'r Llyfrgell ddim yn eithriad yn hyn o beth a'n bwriad yw chwarae ein rhan i'r eithaf,' meddai Mark Mainwaring, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

Gwrando a Gweithredu

Mae'r Llyfrgell yn dra diolchgar i oddeutu 1,600 o ddarllenwyr ac ymwelwyr a wnaeth ymdrech deg i gwblhau a dychwelyd ein holiadur ers iddo gael ei lansio ar ei ffurf bresennol ym mis Ebrill 2003.

'Ar y cyfan mae'r canlyniadau'n gadarnhaol iawn, ac yn amlygu lefel uchel o foddhad â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Byddwn yn parhau i gynnal yr arolygon hyn a gwnawn ein gorau i wella ein gwasanaethau ar sail yr adborth a dderbyniwn,' meddai Richard E Huws, Pennaeth Gwasanaethau i Ddarllenwyr. Dyma'n hymateb i rai o'r pwyntiau mwyaf cyffredin:

Parcio/Maes parcio Mae'r Llyfrgell wedi cymryd camau i ddatrys y broblem parcio drwy agor estyniad i'r prif faes parcio ym mis Tachwedd 2005 sy'n darparu 60 o lefydd parcio ychwanegol. Ail-wynebwyd y maes parcio ym mis Rhagfyr 2005, ac ar yr un pryd cyflwynwyd mesurau i arafu'r traffig.

Derbyn Plant Ysgol Mae trefniadau wedi'u cyflwyno fel bod plant ifanc yn gallu mynd gydag oedolion i'r Ystafelloedd Darllen. Yn ogystal, mae isafswm oedran cael tocyn darlennydd yn awr wedi'i ostwng o 18 mlynedd i 16 mlynedd.

Cymorth i Ddarllenwyr Yn dilyn sawl cais am gymorth unigol wrth ymchwilio i hanes y teulu a defnyddio catalogau, cyflwynodd y Llyfrgell gymorthfeydd wythnosol i ddarllenwyr fel prosiect pilot am dri mis ddechrau 2006. Cafodd y rhain dderbyniad gwresog iawn ac yn awr maent yn cael eu cynnig bob dydd Mercher i

ddarllenwyr newydd ac i'r rheiny sydd yma eisoes.

Catalogau dryslyd Mae llawer wedi datgan fod y catalogau arlein cyfredol yn gymhleth a dryslyd. Ar hyn o bryd mae'r Llyfrgell wrthi yn datblygu ei system rheoli gwybodaeth newydd. Mae'r system hon yn cynnwys un catalog integredig sy'n chwilio ar draws yr holl fformatau print, archifol a graffig. Disgwylw'n i'r cam cyntaf fod yn weithredol ddiwedd Ionawr 2007.

Hunan-gopiwyr ar gyfer microffurfiau Cafodd yr adnodd hwn y bu mawr alw amdano ei osod yn Ystafell Ddarllen y De a chafodd groeso brwd. Erbyn hyn ystyrir cyflwyno ail beiriant.

Adnoddau Printio Rhagwelir y bydd peiriannau i brintio o gatalogau'r Llyfrgell ac adnoddau electronig yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Camerâu Digidol Ceir ceisiadau mynych i ganiatáu ffotograffiaeth ddigidol yn ein hystafelloedd darllen. Oherwydd amrywiol gyfyngiadau hawlfraint ar yr ystod eang o ddefnyddiau yn y casgliad mae hwn yn fater cymhleth, ac ar hyn o bryd mae'r Llyfrgell yn cynnal arolwg eang i ganfod sut mae sefydliadau cyffelyb yn ymateb i alwadau tebyg.

Gliniaduron/Adnoddau diwifr Ychwanegwyd yn sylweddol at nifer socedi gliniaduron yn Ystafell Ddarllen y Gogledd. Clustnodwyd cyllid hefyd i adnewyddu'r Ystafell yn 2007-08, a'r gobaith yw y gellir pryd hynny sicrhau mynediad diwifr i Ystafelloedd Darllen y Gogledd a'r De fel ei gilydd.



Adeilad art nouveau yn Riga. Ffoto gan Sara Branch



Y Gweinidog Alun Pugh yn dadorchuddio llun olew olaf Kyffin

Dolen dros y Dŵr

Fe gymer perthynas y Llyfrgell â gwledydd y Baltig gam arall ymlaen gydag arddangosfa ffotograffig newydd a chyffrous.

Ar 5 Ebrill 2007 gwelir lansio *Clic: Visualising Wales* – y prosiect cydweithredol ffurfiol cyntaf i'w ddatblygu rhwng y ddwy lyfrgell. Mae'r arddangosfa ffotograffig yma'n adeiladu ar lwyddiant nifer o ymweliadau cyfnewid staff sydd wedi digwydd eisoes rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Latfia.

Mae'r prosiect yn cynnwys arddangosfa o ffotograffau o Gymru a dynnwyd gan bedwar aelod o staff y Llyfrgell – Sara Branch,

Mark Davey, Simon Evans a Gareth Lloyd Hughes. Bydd y lluniau'n cael eu harddangos yn Latfia a Chymru gyda'r testun wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg, Saesneg a Latfieg.



Llun Olaf Kyffin

'Sunset over Anglesey' oedd y paentiad olew olaf i'w gwblhau gan artist enwocaf Cymru yn yr 20fed ganrif, Kyffin Williams, cyn ei farwolaeth ar 1 Medi.

Dywedwyd bod Syr Kyffin wedi mynnu gorffen y gwaith olaf hwn, gan ddweud 'Mae'r paentiad hwn gennyf i'w wneud'.

'Sunset over Anglesey' yw'r diweddaraf o oddeutu 300 o baentiadau a brasluniau gan Kyffin Williams sydd yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn dilyn ei farwolaeth, derbyniodd y Llyfrgell gymynrodd o rhwng 600 a 700 o eitemau yn unol â'i ewyllys.

Selio Cyfeillgarwch

Wedi'i eni yng Nghasnewydd, a'i fagu yn anialwch Sinai ac yn Lloegr, cyflawni gwasanaeth milwrol yn yr Almaen, a'i benodi i fod yr offeiriad Anglicanaidd cyntaf yn Warsaw wedi'r Rhyfel: mae'r Parchedig Ddr David H Williams wedi byw bywyd diddorol.



Siôn Jobbins o Dalen yn sgwrsio â David H Williams

Cymaint yw ymlyniad David Williams at y Llyfrgell fel bod ei docyn darllen cyntaf, a roddwyd iddo yn 1955, yn dal yn ei feddiant. Mae wrthi hefyd yn gweithio ar lyfr sy'n ymwneud â'i ddiddordeb angerddol –

y seliau ar ddogfennau yn y Llyfrgell Genedlaethol.

'Pethau cyfareddol yw seliau – maent yn adlewyrchiad o hanes Cymru. Mae'r seliau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn ymestyn o'r ddeuddegfed ganrif hyd at yr unfed ganrif ar hugain, yn eu plith mae seliau Llywelyn Fawr a mwyafrif brenhinoedd Lloegr yn ogystal â chwmnïau rheilffyrdd a chamlesi cynnar. Maent yn adlewyrchu'r newid a fu mewn gwleidyddiaeth, a hyd yn oed gwisgoedd, ar hyd y canrifoedd,' meddai David, sy'n cael modd i fyw, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, wrth restru'r seliau yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Mae David Williams yn un o'r darllenwyr prin ac arbennig hynny y mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi bod mor ffodus i'w cael. Nid yn unig y mae'n ymchwilio i gasgliadau'r Llyfrgell er pleser a diddordeb iddo'i hun ond hefyd mae'r oriau dirifedi o

ymchwil a wneir ganddo yn cael eu bwydo i system gatalogio'r Llyfrgell ei hunan. Mae Dr Williams wedi catalogio Siarteri Penrice a Margam ac mae'n gweithio'n awr ar gasgliad Badminton. Datblygodd ei ddiddordeb mewn seliau o ganlyniad i'w ymchwil i Urdd y Sistersiaid yng Nghymru.



David yn cael cip ar un o seliau'r Llyfrgell

A'i hoff sêl o blith y miloedd a gatalogiwyd ganddo?

'Mae mor anodd dewis, ond rwy'n credu mai sêl esgob o'r 17eg ganrif y byddwn yn ei dewis o raid, sef sêl sy'n dangos llongdrylliad Sant Paul ym Malta'.



Anwen Pierce, Pennaeth Ymholiadau

Ffeil o Ffaith

Gweithwyr: yn ystod y 1950au roedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyflogi tua 60 aelod o staff. Heddiw, mae'n cyflogi 296 o bobl. Mae ystod y swyddi yn y Llyfrgell hefyd wedi ehangu'n sylweddol ac erbyn hyn mae'n cynnwys adferwyr ffilmau, digidyddion a gwe-archifwyr.

Nicholas Edwards



Cwrdd â'r Staff – Anwen Pierce

1. Beth yw teitl eich swydd...

a beth mae'n ei olygu? Fi yw Pennaeth Ymholiadau yn y Llyfrgell. Mae hyn yn golygu bwrw golwg fanwl bob dydd ar yr ymholiadau sydd wedi cyrraedd y Llyfrgell, naill ai drwy'r post, e-bost neu ffacs. Y dyddiau hyn, drwy e-bost y daw'r mwyafrif helaeth. Fi sy'n gyfrifol am eu dosbarthu ymhlith fy nhîm a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu hateb yn effeithiol a phrydlon. Rwy'n lwcus o gael tîm da a gweithgar!

2. Beth yw'r ymholiadau mwyaf

cyffredin? Hanes teulu yw'r pwnc mwyaf poblogaidd ar hyn o bryd; mae hel achau wedi dod yn boblogaidd a threndi iawn oherwydd rhaglenni megis 'Who do you think you are' y BBC. O blith yr ymholiadau, daw ceisiadau am gopiau o hen ewyllysiau, gwybodaeth o'r Cyfrifiad a hen gofrestrï plwyf, a chopiau o fapiau degwm. Yn ogystal â hyn, mae cwmnïau teledu a chyhoeddwr yn ein cadw'n brysur wrth ofyn am

ddeunydd o'n casgliadau ar gyfer eu rhaglenni a'u cyhoeddiadau.

3. A ydych chi'n cael ymholiadau

anarferol o gwbl? Mae rhai ymholiadau anarferol yn cyrraedd yma o bryd i'w gilydd. Erys dau ymholiad yn y cof. Gofynnodd un gŵr bonheddig i ni dros y ffôn a fydden ni'n gallu awgrymu enw addas ar gyfer ei gi a gofynnodd un fenyw am rysâit bara brith! Mae llawer o ymholwyr yn gofyn i ni brofi eu bod yn perthyn i Owain Glyndŵr neu i'r teulu brenhinol. Cwestiynau eraill mwy cyffredin yw ai llyfrau Cymraeg eu hiaith yn unig sy'n cael eu cadw yn y Llyfrgell ac a oes rhaid i bobl fedru siarad y Gymraeg er mwyn ymweld â ni (yr ateb i'r ddau yw 'na').

4. Faint o ymholiadau rydych yn eu

derbyn yn flynyddol? Rydym yn derbyn ymholiadau o bob rhan o'r byd ac maent yn cyrraedd cyfanswm o tua 8,000 bob blwyddyn. Mae'r rhif hwn yn dal i gynyddu.

5. Pa fath o lyfrau sydd orau

gennych chi? Mae'n dibynnu ar fy hwyl! Rwy'n hoff o ffuglen naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Pur anaml y byddaf yn darllen llyfrau ffeithiol neu gofiannau.

Darlith Ceidwadwr

Un o'r gwleidyddion amlycaf yng Nghymru yn ystod y 1980au, Nicholas Edwards, yr Aelod Seneddol Ceidwadol, oedd y siaradwr gwadd yn Narlith Flynyddol 2006 yr Archif Wleidyddol Gymreig ar 3 Tachwedd.

Nicholas Edwards, Arglwydd Crucywel bellach, oedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru o 1979 hyd at 1987. Yn ystod ei arait, *The Conservative Party in Wales 1888 – 1998*, croniclodd gyfraniad ei blaid i fywyd economaidd a diwylliannol Cymru drwy gydol yr 20fed ganrif.

Siaradwr gwadd darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig y flwyddyn nesaf fydd David Jenkins, cyn-Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngres Undebau Llafur (TUC) Cymru.

Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynu tystiolaeth ddogfennol am wleidyddiaeth yng Nghymru. Gan fod 2007 yn flwyddyn etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd yr Archif yn brysur iawn yn casglu taflenni, gohebiaeth a llenyddiaeth gan yr holl ymgeiswyr.

Galwch Heibio

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn croesawu darllenwyr ac ymwelwyr newydd – galwch chithau heibio hefyd!

Oriau Agor y Llyfrgell

- 9.30am – 6.00 dydd Llun i ddydd Gwener
- 9.30am – 5.00pm dydd Sadwrn
- 10.00am – 4.00pm ar rai gwyliau cyhoeddus

Mae bwyty Pen Dinas a'r Siop y Llyfrgell ar agor i ddarllenwyr ac ymwelwyr. I drefnu taith i'ch cymdeithas neu glwb, ffoniwch Angharad Jones ar 01970 632801 neu e-bostiwch amj@llgc.org.uk

Am wybodaeth bellach am y Llyfrgell a'i gweithgareddau:

Ffôn: 01970 632800
E-bost: holi@llgc.org.uk
Gwefan: www.llgc.org.uk

Ffrindiau ar Ffilm

Mae pawb yn paratoi ar gyfer dathliadau canmlwyddiant y Llyfrgell yn 2007 gan gynnwys Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

I gofnodi'r achlysur pwysig hwn lansiwyd ymgyrch arbennig i godi arian at eitem benodol i'r Llyfrgell a fyddai'n rhodd gan Gyfeillion y Llyfrgell. Cytunwyd y dylai'r arian fynd at ffilm fer i'w defnyddio fel cyflwyniad i ddarllenwyr ac ymwelwyr â'r Llyfrgell.

Mae'r ymateb i'r ymgyrch wedi bod yn syfrdanol ac ar hyn o bryd mae'r gronfa ar fin cyrraedd £8,500. Os hoffai darllenwyr Dalen gyfrannu at yr adnodd hwn, a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y Llyfrgell ac ar daith i hyrwyddo ei chyfoeth o gasgliadau, cysylltwch â Chydlynnydd y Cyfeillion, Rhian Williams.

Mae croeso bob amser i aelodau newydd, felly os ydych yn awyddus i ymuno a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyfeillion, cofiwch gysylltu â Rhian Williams ar rnj@llgc.org.uk neu 01970 632585.